CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 10 Gorffennaf 2017 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Mai..

AGENDA:
Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

SWYDDOGION:
Yr oedd David Thorne wedi derbyn swydd gohebydd y wasg.

Y CAE CHWARAE:
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Yr oedd y cae ger y cae chwarae yn cael ei brynu gan y Cyngor a phenderfynwyd gan y Cynghrowyr bod angen gwneud y canlynol:

- Lledu'r bwlch i'r cae
- Clirio'r borfa yn y cae.:
- Cafwyd cadarnhad trwy ebost gan swyddog o'r sir mai rhwng Medi a Hydref 2017 y byddai angen gwneud yr archwiliad nesaf o'r adnoddau

DIWRNOD HWYL:
Yr oedd y diwrnod hwyl wedi bod yn llwyddianus iawn eleni eto. Rhannwyd yr elw rhwng yr Ysgol, y Cylch Meithrin a'r CFFI. Byddai rhodd yn cael ei roi i'r Clwb Ar Ôl Ysgol ddechrau mis Medi.

YSGOL SUL YR EGLWYS, LLANLLWNI:
Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cynghorwyr i gefnogi'r cais.

GWEFAN LLANLLWNI:
Roedd adroddiad o gyfarfod mis Mai ar y wefan, ac wedi ymddangos yn Clonc ac yn Clecs Bro Cader.

CYNGOR SIR GÂR:
Cais am Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn ymgeisio am y grant eleni eto. Dyddiad Cau 21 Gorffennaf 2017.

CYFARFOD HYFFORDDIANT:
Roedd aelod wedi mynychu'r Cyfarfod ar 06 Gorffennaf 2017 a chafwyd adborth diddorol.

CYSGODFAN BWS:
Cafwyd cadarnhad gan Linda Evans y byddent yn cael eu glanhau yn y dyfodol agos.

SBWRIEL:
Pont y Rheilfordd – Gwarcwm:
Y gwaith wedi ei gwblhau.

LLYTHYRON O DDIOLCH:
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Llanllwni.

Apêl Sir Caerfyrddin, Sir Nawdd CAFC 2017. (Pwyllgor Rhanbarthol y Gogledd)

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

UNRHYW FATER ARALL.

BLODAU:
Yr oedd Farmyard Nurseries wedi plannu y blodau ac yr oedd Dewi Davies yn mynd i ofyn iddynt am anfoneb am blannu blodau yn ystod gwanwyn–hydref 2016 a gwanwyn 2017.

TYLLAU YN YR HEWL:
Penrhewl Abercwm.

PLISMONA YN Y GYMUNED:
Roedd y Cynghorwyr yn datgan pryder nad oedd plismon yn mynychu cyfarfodydd i drafod materion o fewn y pentre. Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu ag Eleri Bonning unwaith eto cyn y cyfarfod nesaf.
Yr oedd cryn bryder ynglŷn â cheir yn rasio ar fynydd Llanllwni a bod tarw a buffalos yn ymddangos ar y mynydd yn ystod misoedd yr haf. Yr oedd angen cysylltu hefyd am gyflymdra ceir yn mynd heibio Glanafon am bont Manorafon.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 11 Medi 2017 am 8.00yh.